ANRHYDEDDU

Gyda balchder y clywsom fod Jason M. Edwards, Uchel Siryf Morgannwg Ganol, wedi dyfarnu tystysgrifau arbennig i'r capel ac i John Llewellyn Thomas yn bersonol am gyfraniad nodedig i'r gymuned yn ardal Pontypridd ynghanol y pandemig presennol. Gan nad oedd hi'n bosibl cyflwyno'r tystysgrifau gerbron y gynulleidfa gyfan, trefnwyd bod Mike ac Iwan West yn ymuno â John i dderbyn y tystysgrifau mewn seremoni breifat yn y capel.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r gwahanol ymgyrchoedd sydd yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod anodd hwn, a llongyfarchiadau mawr i John, gyda ddiolch iddo am ein hysgogi a'n hysbrydoli.